Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MAI 2019**

**Report by:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Subject:** Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

**2.0 Cefndir**

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng–Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Ynghlwm, cyflwynir yr adroddiad blynyddol sydd yn rhoi trosolwg o'r meysydd a ganlyn: safonau, darpariaeth, cyfraniad y gwasanaeth i'r daith ddiwygio, gweithio mewn partneriaeth a materion busnes.

3.2 Mae'r prif feysydd sydd angen eu datblygu, a adnabuwyd o'r drefn hunan arfarnu, yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â wnaed**

8.1 Cynhelir trafodaethau cyson gyda Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2018-19.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Cadarnhaf fod cyfrifoldeb ar Reolwr Gyfarwyddwr GwE, yn unol â'r cytundeb rhwng awdurdod, i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y Gwasanaeth i'r Cyd- Bwyllgor a'r Cynghorau yn flynyddol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf gywirdeb y symiau ariannol a'r canrannau sy'n ymddangos dan y pennawd 'Cyllideb' yn rhan 1 o Adroddiad Blynyddol GwE am 2018/19. Mae rhan 3.2 o'r adroddiad blaen yn nodi fod y prif feysydd sydd angen eu datblygu wedi'u hadnabod yn flaenoriaethau yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20. Ymhellach, mae rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yma'n cadarnhau bydd GwE yn gweithredu'r cynllun oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.